Arweiniad atodol ar gyfer arolygu Llwybrau Dysgu 14-19 mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig

Ebrill 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

℗ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys **Tudalen**

1 Cyflwyniad **1**

2 Arolygu ac adrodd ar Lwybrau Dysgu 14-19 **3**

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 3

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 3

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 3

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? 5

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 6

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 6

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 7

Beth yw'r diben?

Rhoi mwy o arweiniad i arolygwyr ar sut i arolygu Llwybrau Dysgu 14-19 mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig yng Nghymru. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ar y cyd â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Uwchradd a'r Arweiniad ar Arolygu Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Ar gyfer pwy y mae wedi'i fwriadu?

Pob aelod o dimau arolygu ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig.

Pryd ddylid dechrau defnyddio'r arweiniad?

Ar unwaith.

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2007

1 Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi ail argraffiad o'r Arweiniad ar Lwybrau Dysgu 14-19 (LlD14-19) sy'n diweddaru'r argraffiad cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004. Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.wales.gov.uk. Dynodir y tudalennau y'u diweddarwyd gan y dyddiad a welir ar waelod y tudalen.

Rydym yn argymell bod pob arolygydd yn ymgyfarwyddo â'r ddogfen hon gan y bydd LID 14-19 yn dod yn fwyfwy pwysig yn ystod y blynyddoedd nesaf. Prif nodweddion y ddogfen yw:

- Bod chwe Elfen Allweddol LID 14-19 yn aros fel y maent:
    - **Llwybrau Dysgu Unigol** i fodloni anghenion dysgwyr;
    - **Dewis Ehangach a Hyblygrwydd** o raglenni a ffyrdd o ddysgu mewn dewislenni opsiynau cydweithiol;
    - **Y Craidd Dysgu** sy'n nodi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau, yr ymagweddau, y gwerthoedd a'r profiadau cyffredin;
    - **Cefnogaeth Hyfforddwr Dysgu**;
    - **Mynediad at Gymorth Personol**; a
    - **Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd**.
- Nid oes unrhyw newid sylweddol i'r ddwy Elfen Allweddol gyntaf yn yr ail argraffiad.
- Mae'n ceisio am fwy o gydweithio trwy'r **Rhwydweithiau 14-19**.

- Mae deunydd newydd yn ymwneud â rheoli'r **Craidd Dysgu**:

    - nid model cwricwlwm yw'r Craidd Dysgu, ond canlyniadau a phrofiadau y gellid eu cyflwyno'n hyblyg;
    - ystyrir y gall peilot Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) gyflwyno 'bron popeth' o'r Craidd Dysgu;
    - ceir mwy o fanylion am 'brofiad sy'n canolbwyntio ar waith' a 'chyfranogiad cymunedol';
    - dengys Atodiad G sut y mae'r Craidd Dysgu yn cysylltu â Chyfnod Allweddol 4; a
    - dengys Atodiad H sut bydd datblygiadau newydd fel adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael effaith ar y Craidd Dysgu.

- Mae mwy o wybodaeth am hyfforddi a sefydlu **Hyfforddwyr Dysgu** ac am swyddogaeth y darparwr. Ym mis Medi 2006, bydd 220 o ddarpar Hyfforddwyr Dysgu yn cychwyn eu hyfforddiant.

- Diweddarwyd yr adrannau ar **Fynediad at Gymorth Personol** a **Gwybodaeth Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd**, gan gynnwys mwy o wybodaeth am y berthynas rhwng yr Hyfforddwr Dysgu a chyngor ac arweiniad ar yrfaoedd.

- Mae'n cynnig y dylai fod rhywfaint o gysoni rhwng **LlD 14-19** a **CBC**.

- Mae rhestr newydd o ddisgwyliadau ar gyfer **Rhwydweithiau Dysgu 14-19**. Rhestrir yr hyn y dylent fod wedi'i gyflawni erbyn mis Medi 2006 a'r hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni erbyn Medi 2007 a Medi 2008 (Atodiad E).

- Mae'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am **Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)** yn Atodiad K ac am y **System Sgorau newydd** yn Atodiad L.

Mae'r ddogfen yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n dilyn cyhoeddi adroddiad y Dirprwy Weinidog ar Lwybrau Dysgu 14-19 a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2005. Mae'r crynodeb o'r cynllun yn ddefnyddiol gan ei fod yn cynnwys amserlen ar gyfer beth sydd am ddigwydd dros y blynyddoedd nesaf.

2 Arolygu ac adrodd ar Lwybrau Dysgu 14-19

Mae'r arweiniad hwn wedi'i drefnu o amgylch y modd y mae'r chwe Elfen Allweddol yn cysylltu â'r gwahanol gwestiynau allweddol. Mae'n disgrifio ble y gallech ddod o hyd i dystiolaeth ac yn awgrymu rhai cwestiynau y gallech eu defnyddio.

Cewch dystiolaeth o Lwybrau Dysgu 14-19 yng nghynlluniau cwricwlwm yr ysgol ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Yn ogystal, bydd yn rhaid i chi ofyn i ddysgwyr cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth am Lwybrau Dysgu (gweler yr awgrymiadau Gwrando ar Ddysgwyr ar dudalen 5 y papur hwn). Yn olaf, rhaid i chi drafod ag uwch rheolwyr eu cynlluniau am Lwybrau Dysgu ar gyfer y pedair neu bum mlynedd nesaf.

Daw'r prif gyfleoedd i adrodd ar Lwybrau Dysgu 14-19 yng Nghwestiynau Allweddol 3 a 4, ond gall ddigwydd mewn cwestiynau allweddol eraill.

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Er na fyddai'n amlwg yn y cwestiwn allweddol hwn, yn y pendraw dylai LlD 14-19 ddylanwadu ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni. Felly dylai gael effaith ar y tri phwynt bwled ar yr ochr chwith. Bwriad LlD 14-19 yw codi safonau trwy sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cyrsiau priodol sy'n arwain at gymwysterau sy'n bodloni eu gallu, eu diddordebau a'u hanghenion.

Byddwn yn darparu arweiniad ar wahân am sut i gofnodi cyrhaeddiad yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC).

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Fel Cwestiwn Allweddol 1, efallai na fyddwch yn gweld tystiolaeth uniongyrchol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, ond dylai fod yn dylanwadu ar addysgu ac asesu. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol yw'r angen i arfarnu'r graddau y mae addysgu yn bodloni anghenion dysgwyr ac yn ennyn eu hymgysylltiad gweithgar. Mae asesu yn chwarae rhan hefyd trwy sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cyflawniadau a'u cynnydd a'u bod yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon wrth gynllunio a gwella eu dysgu.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Cwestiwn Allweddol 3 yw'r man, lle y bo'n briodol, y dylech arolygu ac adrodd ar y tair Elfen Allweddol gyntaf o LD14-19. Yr elfennau yw:

- Elfen Allweddol 1: Llwybr Dysgu Unigol;
- Elfen Allweddol 2: Dewis Ehangach a Hyblygrwydd; ac
- Elfen Allweddol 3: Y Craidd Dysgu.

Mae'r ddau bwynt bwled ar yr ochr chwith yn ymwneud â bwriad LID14-19:

- y graddau y mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau dysgwyr; a'r

- graddau y mae'r profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach.

Dylech roi sylwadau ar ansawdd neu ddatblygiad y ddewislen ac ar effaith y Rhwydwaith 14-19 a'r rhan yr ysgol ynddi. Wrth wneud hyn, dylech ystyried sut mae'r ysgol yn gweithio â phartneriaid er mwyn darparu ystod lawn o gyrsiau sy'n gallu bodloni diddordebau ac anghenion dysgwyr.

Os nad yw'r ysgol yn darparu LID14-19 ac, yn benodol, os nad yw'n datblygu dewislen opsiynau sy'n galluogi dysgwyr i ddilyn eu llwybrau dysgu unigol, yna dylech ystyried hyn yn ddiffyg sylweddol a gallai ddylanwadu ar y radd gyffredinol y byddech yn ei dyfarnu ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3.

Cwestiynau i'w hystyried:

1 Pa gynlluniau sydd gan yr ysgol i gyflwyno LID14-19 a pha mor effeithiol ydynt?

2 A yw'r cwricwlwm presennol yn darparu:

- dewisiadau sy'n bodloni diddordebau, galluoedd a dulliau dysgu dysgwyr;

- ystod eang a chytbwys o brofiadau;

- cyfuniad o elfennau ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol[1]; a'r

- Craidd Dysgu?

3 Ydy'r ysgol:

- yn cydnabod profiadau o bob rhan o fywyd dysgwr; ac

- yn darparu cefnogaeth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu?

4 Pa effaith y mae datblygu'r ddewislen opsiynau yn ei gael ar yr ysgol?

5 Pa mor dda yw sefyllfa'r ysgol o ran darparu neu roi mynediad at raglenni o lefel mynediad i lefel 4 yn y pump parth[2]?

---

[1] **Ffurfiol**: cyfleoedd dysgu wedi'u trefnu yn arwain at gymwysterau cymeradwy a/neu gredydau FfCChC.
Heb fod yn ffurfiol: rhaglen a drefnwyd a allai arwain at achrediad ond sydd fel arfer y tu allan i'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.
Anffurfiol: profiadau ehangach, fel arfer heb gydnabyddiaeth ffurfiol.

[2] Y pump parth yw: mathemateg, gwyddoniaeth a holl agweddau ar dechnoleg; busnes a rheoli; gwasanaethau i bobl; y celfyddydau creadigol a diwylliant; a'r dyniaethau ac ieithoedd.

6 Lle y bo'n briodol, pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth i fyfyrwyr sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg?

7 Pa effaith y mae'r prosbectws gweithgareddau[3] yn ei gael ar yr ysgol?

8 Pa mor dda yw sefyllfa'r ysgol o ran darparu gofynion lleiaf ac estyniadau'r Craidd Dysgu, gan gynnwys profiadau sy'n canolbwyntio ar waith a chyfranogiad cymunedol?

9 Ym mha ffordd a pha mor dda mae'r ysgol yn gweithio â phartneriaid i ddatblygu ei chwricwlwm fel ei bod yn bodloni anghenion Llwybrau Dysgu?

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Unwaith eto, lle y bo'n briodol, dylech arolygu ac adrodd ar yr ail gyfres o dair elfen allweddol LID14-19 yn y cwestiwn allweddol hwn:

- Elfen Allweddol 4: Cefnogaeth Hyfforddwr Dysgu;
- Elfen Allweddol 5: Mynediad at Gymorth Personol; ac
- Elfen Allweddol 6: Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd.

Cwestiynau i'w hystyried:

1 Ydy'r ysgol yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd o ansawdd uchel (cofiwch nad ydych yn arolygu darpariaeth Gyrfa Cymru)?[4]

2 Pa mor effeithiol yw cynlluniau'r ysgol i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn derbyn ei hawl sylfaenol i gael Hyfforddwr Dysgu? Sut byddant yn sicrhau bod yr Hyfforddwr Dysgu yn ddiduedd?

3 Pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth a/neu fynediad at gefnogaeth er mwyn bodloni anghenion unigolion, yn enwedig wrth eu helpu i ddatblygu atebion i broblemau personol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol? Beth yw swyddogaeth partneriaid yn y Partneriaeth am Bobl Ifanc?

Gwrando ar ddysgwyr

Cewch lawer o wybodaeth ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3 a Chwestiwn Allweddol 4 fel ei gilydd drwy siarad â dysgwyr cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Rhai cwestiynau y gellid eu gofyn iddynt:

1 Pa mor fodlon ydynt â'u cyrsiau'n gyffredinol?

[3] Cynhyrchir y prosbectws gweithgareddau gan y Rhwydwaith 14-19 ac mae'n cynnwys yr ystod o gyfleoedd sydd heb fod yn ffurfiol a'r rhai anffurfiol mewn ardal.

[4] Yn ôl adroddiad Estyn ar gydweithredu rhwng chweched dosbarth ysgolion a cholegau AB dywedir bod tua thraean o ddysgwyr wedi cael gwybodaeth annigonol a theimlai rhai bod y cyngor yn dangos tuedd.

2 Beth oedd ansawdd yr arweiniad a gawsant cyn cychwyn ar eu cyrsiau? A oedd yr arweiniad yn gynhwysfawr a diduedd?

3 Beth yw ansawdd yr arweiniad a'r gefnogaeth maent yn eu derbyn yn ystod y cyrsiau? Os ydynt wedi bod yn gweithio â hyfforddwr dysgu, pa mor llwyddiannus y bu hyn?

4 Tra iddynt fod yng nghyfnod allweddol 4/y chweched dosbarth, ydyn nhw wedi cael unrhyw broblemau neu anawsterau a pha mor dda yr aethpwyd i'r afael â'r rhain?

5 Pa mor fodlon oeddent â'r dewisiadau a wnaethant?

6 Beth yw eu barn am ansawdd yr addysgu'n gyffredinol yng nghyfnod allweddol 4/y chweched dosbarth?

7 Beth yw eu barn am safon/lefel y gwaith?

8 Yn gyffredinol, beth yw nodweddion da a diffygion cyfnod allweddol 4/y chweched dosbarth?

Bydd cyfle hefyd i roi sylwadau ar LD14-19 wrth ystyried Cwestiynau Allweddol 5, 6 a 7.

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Yng **Nghwestiwn Allweddol 5**, dylech roi sylwadau ar ba mor dda y mae'r ysgol yn cynnwys LlD14-19 wrth osod ei blaenoriaethau a'i chyfeiriad strategol. Yn benodol, rhaid i chi ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn ystyried LlD14-19 o safbwynt y dysgwyr yn hytrach nag ystyried sut mae'n effeithio ar yr ysgol ei hun. Golyga hyn y dylai'r ysgol ystyried sut y gall gyfrannu at ehangu dewis y dysgwyr, p'un ai drwy ei darpariaeth ei hun, darpariaeth sy'n ganlyniad cydweithio â darparwyr eraill, neu ddarpariaeth o rywle arall. Efallai y bydd cyfle yma i roi sylwadau ar ba mor dda y mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill, yn enwedig fel rhan o'r Rhwydwaith 14-19. Dylech fod yn gallu arfarnu effaith y Rhwydwaith 14-19 lleol ar yr ysgol a pha mor dda mae'r ysgol yn cyfrannu ato.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Yn yr un modd yng **Nghwestiwn Allweddol 6**, dylech ystyried sut mae'r ysgol yn arfarnu ei darpariaeth bresennol yn ôl gofynion LlD14-19 a pha mor dda y mae'n cynllunio ar gyfer y rhain yn y tymor byr a'r tymor hir fel ei gilydd.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Mewn ysgol sydd â chweched dosbarth, dylech ystyried yng **Nghwestiwn Allweddol 7**, p'un a yw'r ysgol yn cael gwerth am arian gan ei chweched dosbarth. Bydd yn rhaid i chi farnu a yw'r ddarpariaeth yn gost-effeithiol, yn enwedig lle mae'r grwpiau addysgu yn fach. Dylech ymchwilio a yw darparu chweched dosbarth, yn enwedig lle mae grwpiau addysgu bach yn mynd ag adnoddau oddi wrth gyfnodau allweddol 3 a 4. Bydd yn rhaid i chi ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn gweithio â phartneriaid er mwyn gwella'i chost-effeithiolrwydd.